

# Cymru: cyfarfod dirprwyedig Mawrth 2024

03/04/2024

[See all updates](#)

Cyfarfod Dirprwyedig Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol Cymru ym mis Mawrth 2024.

## 5 Mawrth 2024

### Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol

#### Renovation of St Andrew's Church, Penrice

Ymgeisydd: Ardal Weinidogaeth G?yr - Eglwys Sant Andreas, Pen-rhys

Crynodeb o'r prosiect: Diben y prosiect yw adnewyddu Eglwys Sant Andreas, gan fynd i'r afael â materion lleithder trwy dynnu plastr presennol hyd at 1 metr uwchben lefel y llawr, rhoi plastr calch anadlu yn ei le, ail-baentio'r tu mewn gyda phaent mwynau, diweddarau'r gosodiad trydanol, a gosod 11 wresogyddion o dan seddau i wella rheolaeth hinsawdd.

Penderfyniad: Gwrthod

#### Canolfan Pererin Mary Jones: Bringing Mary Jones's story to life

Ymgeisydd: Cymdeithas y Beibl Prydain a Thramor

Crynodeb o'r prosiect: Nod y prosiect yw cadw a rhannu stori ysbrydoledig Mary Jones a threftadaeth genedlaethol Cymru trwy osod sgriniau rhyngweithiol modern newydd.

Penderfyniad: Gwrthod

#### Guidebook to Monmouth

Ymgeisydd: Monmouth Field and History Society

Crynodeb o'r prosiect: Nod y prosiect yw cynhyrchu a chylchredeg canllaw cymunedol ar gyfer Trefynwy, gan wella dealltwriaeth trigolion ac ymwelwyr o hanes, pensaerniaeth, bywyd diwylliannol a chymdeithasol y dref trwy gynnwys deniadol, delweddau hanesyddol a newydd, a mapiau a luniwyd yn arbennig, a thrwy hynny hyrwyddo economi ymwelwyr ffyniannus.

Penderfyniad: Gwrthod

## **#SOS - Save our Salmon (Reconnecting people with their salmon rivers)**

Ymgeisydd: Prifysgol Abertawe

Crynodeb o'r prosiect: Mae'r prosiect hwn yn ceisio ailgysylltu pobl ag afonydd, adfer cynefinoedd eogiaid allweddol, darparu prisiad mawr ei angen o'r gwasanaethau ecosystem a gefnogir gan eogiaid, a dechrau theori newid i helpu adfer dirywiad eogiaid.

Penderfyniad: Gwrthod

## **Archif Gymunedol Harlech**

Ymgeisydd: Llyfrgell a Sefydliad Harlech

Crynodeb o'r prosiect: Nod y prosiect yw sefydlu archif gymunedol gynhwysfawr a hygyrch yn Harlech trwy gyfoethogi ymdrechion gwirfoddolwyr gyda chefnogaeth ac offer arbenigol, gan alluogi cadw ac arddangos deunyddiau treftadaeth lleol ar gyfer y gymuned a chenedlaethau'r dyfodol.

Penderfyniad: Dyfarnu grant o £6,800 (94.44%)

## **Y Gwyllt**

Ymgeisydd: Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Crynodeb o'r prosiect: Mae'r prosiect yn cynnig grymuso a gwella plant agored i niwed o gefndiroedd cythryblus yng Nghastell-nedd Port Talbot trwy ddarparu mynediad i fannau gwyrdd lleol ac ymgysylltu â nhw, a thrwy hynny gefnogi eu hadferiad corfforol ac emosiynol, gan hyrwyddo ffyrdd egniol o fyw yn unol â'r strategaeth 'Pwysau Iach, Cymru Iach', a gwella addysg bioamrywiaeth gymunedol a chadwraeth.

Penderfyniad: Dyfarnu grant o £5,000 (100%)

## **Exploring our Heritage**

Ymgeisydd: Yo Yo's Kidz Club

Crynodeb o'r prosiect: Mae'r prosiect yn ceisio gwella dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o Dreftadaeth Cymru trwy ymweliadau â safleoedd diwylliannol arwyddocaol, cymryd rhan mewn sesiynau treftadaeth, a gweithgareddau dysgu, tra'n gwella sgiliau iaith Gymraeg a hwyluso hygyrchedd i bob aelod.

Penderfyniad: Dyfarnu grant o £5,150 (100%)

## **Mold Museum - Threads of Inspiration**

Ymgeisydd: Aura Leisure & Libraries Ltd

Crynodeb o'r prosiect: Nod y prosiect yw trawsnewid Amgueddfa'r Wyddgrug yn ganolbwynt cymunedol deinamig a chynhwysol drwy ailddatblygu ei phrif oriel a chychwyn yr ail gam o gyflwyno gweithgareddau rhyngweithiol, corfforol a digidol a ddatblygwyd mewn cydweithrediad ag ymgynghorwyr addysg, artistiaid, a grwpiau cymunedol amrywiol lleol, gan ganolbwyntio ar Hanes a diwylliant cyfoethog Yr Wyddgrug.

Penderfyniad: Dyfarnu grant o £7,343 (80.75%)

## **Deffro'r Bardd Cwsg!**

Ymgeisydd: Cyfeillion Ellis Wynne

Crynodeb o'r prosiect: Y pwrpas yw cynhyrchu ffilm fel cyflwyniad aml-gyfrwng i hanes a gwaith yr awdur Ellis Wynne o Lasynys Fawr, Ardudwy ar gyfer cenedlaeth newydd o blant ysgol yr ardal fel rhan o'n hetifeddiaeth.

Penderfyniad: Dyfarnu grant o £9,650 (100%)

## **Forage, Flourish & Feast**

Ymgeisydd: Wild Pickings CIC

Crynodeb o'r prosiect: Byddai hyn yn gyfres o weithdai rhad ac am ddim a dathliadau tymhorol mewn mannau gwyrdd cymunedol, gyda ffocws ar grefftau a bwydydd traddodiadol Cymru, gan ddefnyddio cynnyrch o'r tir.

Penderfyniad: Dyfarnu grant o £9,994 (100%)

## **Gardd Enfys Rural Re-Skill Project**

Ymgeisydd: Gardd Enfys

Crynodeb o'r prosiect: Nod y prosiect yw adfywio crefftwaith gwledig trwy ddarparu sgiliau newydd i'r gymuned mewn prosesu llin a gwehyddu lliain traddodiadol, gan feithrin cyfnewid sgiliau rhwng cenedlaethau i gynhyrchu dillad lliain yn lleol.

Penderfyniad: Dyfarnu grant o £10,000 (100%)

## **Newid yn y Ganran**

### **Women's Peace Petition – Hawlio Heddwch**

Ymgeisydd: Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru

Penderfyniad: Dyfarnu cynnydd yn y ganran i 100%

## **Cynnydd yn y Grant**

### **Restoration and Renovation of the Marquess of Anglesey's Column and Cottage**

Ymgeisydd: Ymddiriedolaeth Tŷr Marcwis

Penderfyniad: Dyfarnu Cynnydd yn y grant o £190,383 i wneud cyfanswm grant o £1,063,183

### **Treftadaeth Treflun Dolgellau**

Ymgeisydd: Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Penderfyniad: Dyfarnu Cynnydd yn y grant o £75,200 i wneud cyfanswm grant o £1,070,200

### **Cynllun Treftadaeth Treflun Canol Tref Wrecsam**

Ymgeisydd: Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Penderfyniad: Dyfarnu Cynnydd yn y grant o £100,000 i wneud cyfanswm grant o £1,621,100

## **15 Mawrth 2024**

### **Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol**

#### **Strength From Memories**

Ymgeisydd: I Am All Stories Ltd

Crynodeb Prosiect: Mae'r prosiect am wella lles meddyliol a gwarchod treftadaeth y DU o gydnerthedd trwy rannu a dogfennu storïau am oresgyn heriau gan genedlaethau hŷn, trwy gydweithio â sefydliadau lleol, gweithdai adrodd storïau a gwneud siwrnalau, a chreu e-lyfr digidol.

Penderfyniad: Gwrthod

## **Dibenion cymeradwy**

**Off Flint – Dathlu ein tref, ein castell a'n harfordir - Newid mewn dibenion cymeradwy**

Ymgeisydd: Cyngor Sir Y Fflint

Penderfyniad: Cytuno ar newid mewn dibenion cymeradwy